Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee
Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting
CWLC DoB09
Ymateb gan Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru / Response from Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Datganoli Darlledu

Rhagfyr 2019

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.ucac.cymru

Datganoli Darlledu

Croesawa UCAC y cyfle hwn i ymateb i ymgynghoriad Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar Ddatganoli Darlledu.

Mae UCAC yn undeb sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol, tiwtoriaid a darlithwyr ym mhob sector addysg ledled Cymru.

Pa agweddau ar (reoleiddio) darlledu, os o gwbl, y dylid eu datganoli i Gymru?

Sut y byddai hyn o fudd i Gymru a chynulleidfaoedd yng Nghymru?

1. Cred UCAC y byddai buddion pendant o ddatganoli'r grym dros ddarlledu i Gymru, gan gynnwys pwerau rheoleiddio.
2. Mae'n anodd dadlau bod Cymru yn derbyn sylw digonol yn y cyfryngau prif-lif – boed yn rhaglenni teledu, radio, nac ychwaith mewn papurau newydd. Lloegr yw'r 'default' a hynny ar draws yr holl blatfformau a mathau o gynnyrch, boed yn newyddiadurol, diwylliannol, adloniant ysgafn ac ati. Yn waeth na hynny, ni thynnir sylw at y ffaith mai at Loegr yn unig y cyfeirir, ac felly mae gwybodaeth yn cael ei chyflwyno fel rhywbeth sy'n wir ac yn berthnasol ledled Prydain, sy'n gamarweiniol.
3. Mae hynny'n niweidiol mewn cyd-destun polisi, llywodraethiant a democratiaeth. Mae'n golygu bod y rhan fwyaf o boblogaeth Cymru yn anwybodus ynghylch pa lefel o lywodraeth sy'n gyfrifol am beth, ac yn golygu bod gan bobl cam-wybodaeth ddifrifol ynghylch sut mae eu cymdeithas yn gweithio. Yn ogystal, golyga nad oes lefelau digonol o sgriwtini ac atebolrwydd mewn perthynas â llywodraeth a bywyd cyhoeddus yng Nghymru (yn genedlaethol nac yn lleol). Mae hynny'n gwanhau natur a safon ein democratiaeth mewn modd peryglus.
4. Mae'r darlun camarweiniol hyn yn niweidiol yn ogystal ar lefel diwylliannol, gan ei fod yn creu sefyllfa ble nad yw pobl yn gweld adlewyrchiad o'u bywydau a'u cymunedau eu hunain yn eu cyfryngau. Rhwydd iawn, dan yr amgylchiadau hynny, fyddai mynd i deimlo nad yw diwylliant Cymru'n haeddu sylw o'r fath, gan esgor ar agweddau o is-raddoldeb.
5. Yr elfen bwysig arall sy'n cael eu esgeuluso dan y drefn bresennol a fyddai'n debygol o fod o fudd dan drefn datganoledig fyddai cynnydd yn nifer y ffynonellau cyfryngol Cymreig a Chymraeg. Mae diffyg plwraliaeth dybryd yn nodweddu ein system, gyda monopoli de facto gan y BBC mewn nifer o feysydd. Unwaith eto, mae hynny'n wendid mawr mewn system ddemocrataidd ble mae angen lleisiau amrywiol yn herio'u gilydd ac yn cynnig persbectif gwahanol. Mae dirfawr angen mwy nag un sianel deledu, a mwy nag un sianel radio Cymraeg hefyd er mwyn gwasanaethu'r gynulleidfa'n effeithiol yn ei holl amrywiaeth.
6. Mae 'Cwricwlwm i Gymru' ar y ffordd o 2022. Ym marn UCAC, mae creu tirwedd cyfryngol eang, amrywiol, heriol gwirioneddol Gymreig (a Chymraeg) yn gwbl ganolog i helpu disgyblion, athrawon ac ysgolion i wireddu Pedwar Diben y Cwricwlwm i greu:
    - dinasyddion egwyddorol, gwybodus
    - dysgwyr sy'n uchelgeisiol a galluog
    - cyfranwyr mentrus, creadigol
    - unigolion iach, hyderus
7. Byddai tirwedd cyfryngol o'r fath yn darparu llu o ddeunydd cyd-destunol addas ar gyfer y cwricwlwm newydd, ac yn creu awyrgylch ehangach o wybodaeth a deunydd sy'n berthnasol i'n plant a'n pobl ifanc.

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru